

Dyddiad y Cyfarfod

05 Hydref 2022

PWNC

Eitem 5: CYLLIDEB GwE 2022/2023 – MONITRO CHWARTER 1

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ar gyfer Chwarter Cyntaf 2022/2023.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidebol 2022/23. Ar sail gwariant ac incwm y chwarter cyntaf ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad cychwynnol yma yn rhagweld tanwariant net o (£116,306) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Dyddiad y Cyfarfod

05 Hydref 2022

PWNC

Eitem 6: CYNLLUN BUSNES GwE 2022/2023 – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro chwarter 1, Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cydbwyllgor. Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cydbwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Dyddiad y Cyfarfod

05 Hydref 2022

PWNC

Eitem 7: Y DAITH DDIWYGIO: ADRODDIAD CYNNYDD

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn yr adroddiad sy'n amlygu paratodau ysgolion i fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru yn sgil agenda adnewyddu a diwygio.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r adroddiad yma yn ddilyniant i'r adroddiad cynnydd blaenorol yn Nhymor yr Hydref 2021 a oedd yn ystyried ymateb ysgolion i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio yn ystod pandemig parhaus Covid-19. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt barhau i baratoi at y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE wrth iddynt gefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2022.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.



TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

Dyddiad y Cyfarfod

05 Hydref 2022

PWNC

Eitem 8: RHAGLEN WAITH GwE YN YSTOD TYMOR YR HYDREF A'R GWANWYN 2022-2023

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad sy'n amlinellu prif ffocws Rhaglen Waith GwE yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn 2022-23.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bydd y rhaglen waith, o fis Medi 2022, yn cefnogi ysgolion a lleoliadau wrth iddynt esblygu eu prosesau a'u harferion i fynd i'r afael yn effeithiol â gofynion a disgwyliadau'r canllawiau gwella ysgolion cenedlaethol newydd.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol yn ogystal â Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Phenaethiaid rhanbarthol mewn Fforymau Strategol ac yng Nghynhadledd GwE i uwch arweinwyr yn Venue Cymru ar 22 a 23 Medi 2022.



TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

Dyddiad y Cyfarfod

05 Hydref 2022

PWNC

Eitem 8: CYNHADLEDD RANBARTHOL TYMOR YR HYDREF GWE

PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r adroddiad ar gynhadledd ranbarthol GwE.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bwriad y Gynhadledd "Arweinyddiaeth Ysbrydoledig: Rhoi'r profiadau gorau bosib i'n dysgwyr" oedd rhoi cyfle i osod cyfeiriad i'r dyfodol a ffocysu ar anghenion cefnogaeth ysgolion wrth symud ymlaen. Cafwyd grynodedb o'r uchafbwyntiau'r gynhadledd a derbyniwyd adborth cadarnhaol gan mynychwyr.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
